



# Ymchwilio i newidiadau mewn poblogaethau o adar yng Nghymru, a'u dadansoddi



## Newidiadau mewn arferion amaethyddol

- Tynnu gwrychoedd i greu caeau mwy.
- Draenio tir er mwyn cynnal mwy o anifeiliaid ar y tir.
- Aredig hyd at ymylon caeau er mwyn cynyddu faint o dir sydd ar gael ar gyfer plannu.
- Cynnydd yn y defnydd o gemegion – gall plaladdwyr a gwrteithiau ladd llawer o'r pryfed y mae ein hadar brodorol yn eu bwyta. Mae rhai o'r adar sy'n bwyta'r cemegion hyn wedyn yn cael eu gwenwyno ar ddamwain.
- Mae'r tir yn cael llai o amser i adfer rhwng cynaeafu cnydau.




## Y bwriad yw defnyddio'r cardiau adnoddau hyn gyda Gweithgaredd 2 - Ffactorau sy'n effeithio ar boblogaethau adar.

**Sylwer** – Gan ddibynnu ar faint o gymorth sydd ei angen ar eich dysgwyr, gallwch ddewis a ydych am roi cerdyn eglurhâd iddynt ai peidio.






## Newidiadau yn yr hinsawdd



Gall cyfnodau hir o dywydd sych achosi dirywiad yn nifer yr infertebratau, sy'n golygu bod llai o fwyd ar gael i adar. Mae'r tymheredd byd-eang ar gyfartaledd yn cynyddu o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, gan arwain at newidiadau mewn patrymau tymhorol. Mae ymchwil yn dangos bod y gwanwyn yn dechrau'n gynt nag yn y gorffennol, ac, o ganlyniad mae planhigion y gwanwyn yn ymddangos yn gynharach ac mae blagur yn agor yn gynt. Mae hyn yn effeithio ar adar sydd angen i'w cywion ddeor pan fo ddigonedd o fwyd ar gael. Gall tywydd anghyson a newidiadau mewn patrymau tymhorol olygu bod blodau a phryfed yn ffynnu yn gynharach na'r disgwyl, sy'n golygu bod llai o fwyd ar gael pan fo cywion yn deor a phan fo adar gwir ei angen.




Ar y llaw arall, mae rhai adar yn elwa ar y gaeafau cynhesach yn y DU o ganlyniad i newid hinsawdd, gan fod llai o achosion o dywydd garw ac oer i'w lladd. Bu cynnydd yn nifer yr adar sy'n ein gerddi, fel y titw tomos las a'r robin goch, dros yr ychydig ddegawdau diwethaf. Tybir mai'r rheswm am hyn yw gan fod pobl yn aml yn bwydo adar bach yn eu gerddi, ac felly mae nhw'n fwy tebygol o oroesi'r gaeafau mwynach a welwyd yn sgil y newid yn yr hinsawdd.





## Llygredd olew




Gall gollyngiadau olew yn y môr fod yn angheuol i lawer o adar arfordirol. Pan fo olew yn tewychu ar blu adar, mae'n achosi iddynt lynu at ei gilydd a gwahanu, Mae hyn yn lleihau eu gallu i gadw dŵr allan, ac o'r herwydd yn effeithio ar allu'r adar i gadw'n gynnes pan fo'r tymheredd yn isel.





## Ysglyfaethu gan gathod




Mae Cymdeithas y Mamaliaid yn amcangyfrif bod cathod yn dal hyd at 27 miliwn o adar, ar gyfartaledd, yn ystod y gwanwyn a'r haf yn y DU. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth wyddonol bod hyn yn achosi i boblogaethau o adar ddirywio, gan fod cathod yn dueddol o ddal adar sy'n wan a gwael, a rhai a fyddai wedi marw yn naturiol beth bynnag.





## Cynnydd yn nifer y ceir




Gan fod mwy o gerbydau ar y ffyrdd, mae mwy o risg y bydd adar yn cael eu lladd neu eu hanafu gan geir. Mae adar fel hwyaid a gwyddau, sy'n arwain eu cywion ar draws ffyrdd i ddod o hyd i ddŵr, a mwyeilch, sy'n hedfan yn isel, mewn perygl arbennig.





## Newidiadau i erddi




Mae glaswellt artiffisial, decin,  
graean a ffensys wedi cymryd  
lle lawntydd a gwrychoedd  
naturiol, sy'n golygu bod llai  
o dir ar gael i adar nythu a  
bod llai o fwyd ar gael.





## Colli cynefinoedd



Mae coetiroedd,  
glaswelltiroedd a dolydd  
yn lleihau o ganlyniad i'r  
twf yn y boblogaeth a'r  
cynnydd yn y galw am dai.

